Cyllid & Tollau EF

# Cyfrif Treth Etifeddiant

IHT400

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986 a bod Treth Etifeddiant i'w thalu, neu os nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu ond nid yw'r ystâd yn gymwys i fod yn ystâd eithriedig.

Mae'r IHT400, 'Nodiadau', tudalen 1, yn rhoi manylion am ystadau eithriedig.

**Dyddiad cau**
Rhaid i chi anfon y ffurflen hon atom cyn pen 12 mis i ddyddiad y farwolaeth. Bydd llog yn daladwy ar ôl 6 mis.

## Y cyfrif Treth Etifeddiant

Mae'r cyfrif yn cynnwys y ffurflen hon ac atodlenni ar wahân. Bydd yn rhaid i chi lenwi rhai o'r atodlenni.

**I'ch helpu i ddechrau arni:**
- casglwch bapurau'r ymadawedig a'r wybodaeth sydd gennych am ei ystâd - gwnewch restr o'i asedion, rhwymedigaethau, buddsoddiadau a buddiannau ariannol eraill ac unrhyw roddion a wnaed
- llenwch flychau 1 i 28 ac yna ewch drwy flychau 29 i 48 o'r ffurflen hon i nodi pa atodlenni fydd eu hangen arnoch - os nad oes gennych bob un ohonynt
  – gallwch eu lawrlwytho o www.gov.uk/treth-etifeddiant
  – neu gallwch ffonio'r llinell gymorth i ofyn amdanynt
- llenwch yr atodlenni angenrheidiol cyn bwrw ymlaen i lenwi'r ffurflen hon

## Cyfeirnod Treth Etifeddiant

Os oes unrhyw Dreth Etifeddiant i'w thalu, bydd angen cyfeirnod Treth Etifeddiant arnoch cyn i chi anfon y ffurflen hon atom. Gallwch wneud cais ar-lein am gyfeirnod yn www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant neu drwy lenwi Atodlen IHT422, 'Cais am gyfeirnod Treth Etifeddiant' a'i hanfon i'r cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen honno. Bydd angen i chi wneud cais am gyfeirnod o leiaf 3 wythnos cyn yr ydych yn bwriadu anfon y ffurflen hon atom. Nid oes rhaid i chi wneud cais am gyfeirnod os nad oes treth i'w thalu.

## Llenwi'r ffurflen hon

- defnyddiwch IHT400, 'Nodiadau', i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon
- llenwch y ffurflen gan ddefnyddio inc du neu las
- gwnewch ymholiadau llawn fel y gallwch ddangos bod y ffigurau a roddwch a'r datganiadau a wnewch yn gywir
- os bydd offeryn amrywio wedi'i lofnodi cyn gwneud cais am grant, llenwch y ffurflen i ddangos effaith yr ewyllys/diewyllysedd a'r offeryn gyda'i gilydd - ewch i IHT400, 'Nodiadau'

Atebwch bob cwestiwn a llenwch y blychau i'n helpu i brosesu'ch ffurflen.

**Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom - anfonwch gopïau yn unig. Os bydd angen y dogfennau gwreiddiol arnom, byddwn yn gofyn i chi amdanynt.**

## Os oes angen help arnoch

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:
- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900 - os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 300 200 1900

## Gwybodaeth am yr ymadawedig

**1 Enw'r ymadawedig**

Teitl - nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

Cyfenw

Enwau cyntaf

**2 Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**3 Cyfeirnod Treth Etifeddiant**
Ewch i'r nodyn ar frig y ffurflen hon

**4 A oedd yr ymadawedig yn wryw neu'n fenyw?**

Gwryw ☐ Benyw ☐

**5 Dyddiad geni'r ymadawedig** DD MM BBBB

**6 Ble'r oedd domisil yr ymadawedig ar ddyddiad y farwolaeth?**
Ewch i IHT400, 'Nodiadau', i gael gwybodaeth am ddomisil

- Cymru neu Loegr ☐
- Yr Alban ☐
- Gogledd Iwerddon ☐
- gwlad arall ☐ nodwch y wlad isod

Os oedd domisil yr ymadawedig y tu allan i'r DU ar unrhyw adeg, llenwch IHT401 ac yna llenwch weddill y ffurflen hon

## Os oedd yr ymadawedig yn preswylio yn yr Alban ar ddyddiad y farwolaeth

7 **A yw'r gronfa legitim wedi'i rhyddhau'n llawn ar ôl y farwolaeth?**
Gweler IHT400, 'Nodiadau'

Ydy ☐ Ewch i flwch 8

Nac ydy ☐ Rhowch esboniad llawn yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol', tudalen 17

## Manylion yr ymadawedig

8 **A oedd yr ymadawedig**

- yn briod neu mewn partneriaeth sifil? ☐
- yn sengl? ☐
- yn weddw neu'n bartner sifil goroesol? ☐
- wedi ysgaru neu'n gyn-bartner sifil? ☐

9 **Os oedd yr ymadawedig yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar adeg y farwolaeth, ar ba ddyddiad y digwyddodd y briodas neu y cofrestrwyd y bartneriaeth sifil?**
DD MM BBBB

10 **Pwy oroesodd yr ymadawedig?**
Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- priod neu bartner sifil ☐
- brodyr neu chwiorydd ☐
- rhieni ☐
- plant ☐ nifer
- wyrion ☐ nifer

11 **Cyfeiriad parhaol diwethaf hysbys yr ymadawedig**

Cod post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

12 **A oedd yr ymadawedig yn berchen ar yr eiddo ym mlwch 11 yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu a oedd gan yr ymadawedig hawl i fyw yn yr eiddo?**
Peidiwch â thicio 'Oedd' ar gyfer y cwestiwn hwn os oedd yr ymadawedig yn rhentu'r eiddo yn unig

Oedd ☐ Ewch i flwch 13

Nac oedd ☐ Rhowch fanylion isod. Er enghraifft, 'roedd yr ymadawedig yn byw gyda'i ferch' neu 'cartref nyrsio oedd y cyfeiriad'

13 **Swydd yr ymadawedig, neu swydd flaenorol os yw wedi ymddeol, er enghraifft, 'meddyg wedi ymddeol'**

14 **Rhif Yswiriant Gwladol yr ymadawedig**

15 **Rhif Treth Incwm neu Gyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yr ymadawedig** (os yw'n hysbys)

16 **A wnaeth unrhyw un weithredu o dan bŵer atwrnai a roddwyd gan yr ymadawedig yn ystod ei fywyd?**
Gallai hyn fod wedi bod yn bŵer atwrnai cyffredinol, parhaol neu arhosol.

Naddo ☐

Do ☐ Amgaewch gopi o'r pŵer atwrnai
**Peidiwch ag anfon y ddogfen wreiddiol gyda'r cyfrif hwn.**

## Manylion cyswllt y sawl sy'n delio â'r ystâd

Er enghraifft, cyfreithiwr neu ysgutor.

17 **Enw a chyfeiriad y ffŷrm neu'r unigolyn sy'n delio â'r ystâd**

Enw

Cod post

Rhif y tŷ neu'r adeilad

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

18 **Enw cyswllt**
os yw'n wahanol i flwch 17

19 **Rhif ffôn**

20 **Cyfeirnod y cyswllt**

Os bydd angen i ni ad-dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sydd wedi'i gordalu, byddwn yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i gyfrif banc cwsmer gan ddefnyddio Taliadau Cyflymach. Defnyddir y cyfeirnod Treth Etifeddiant er mwyn nodi'r taliad ar y gyfriflen banc. Nodwch fanylion y cyfrif isod.

21 **Enw'r cyfrif**

22 **Cod didoli**

23 **Rhif y cyfrif**

## Ewyllys yr ymadawedig

24 **A wnaeth yr ymadawedig adael ewyllys?**

Naddo ☐ Ewch i flwch 29

Do ☐ Ewch i flwch 25. Amgaewch gopi o'r ewyllys ac unrhyw godisil wrth anfon eich cyfrif atom. Os bydd offeryn amrywio'n newid swm y Dreth Etifeddiant sy'n daladwy ar yr ystâd hon, anfonwch gopi o hwnnw hefyd. **Peidiwch ag anfon y dogfennau gwreiddiol gyda'r cyfrif hwn.**

25 **A yw cyfeiriad yr ymadawedig, fel y'i dangosir yn yr ewyllys, yr un cyfeiriad â chyfeiriad parhaol diwethaf hysbys yr ymadawedig ym mlwch 11?**

Nac ydy ☐ Ewch i flwch 26

Ydy ☐ Ewch i flwch 27

26 **Beth ddigwyddodd i'r eiddo a nodwyd fel preswylfa'r ymadawedig yn yr ewyllys?**
Os gwnaeth yr ymadawedig werthu'r eiddo, ond defnyddiodd holl dderbyniadau'r gwerthiant i brynu prif breswylfa arall ar ei gyfer, a digwyddodd hyn fwy nag unwaith, does dim rhaid nodi manylion yr holl ddigwyddiadau. Nodwch yn syml fod yr 'eiddo cyfredol wedi disodli'r breswylfa flaenorol'. Ym mhob achos arall, nodwch yn union yr hyn a ddigwyddodd i'r eiddo, a rhowch ddyddiad y digwyddiadau.

## Eitemau y cyfeiriwyd atynt yn yr ewyllys ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystâd

Llenwch flychau 27 a 28 dim ond os gwnaeth yr ymadawedig adael ewyllys. Os na wnaeth hynny, ewch i flwch 29.

27 **A ydych yn cynnwys yn y ffurflen hon yr holl asedion y cyfeirir atynt yn benodol yn yr ewyllys?**
Er enghraifft, tir, adeiladau, meddiannau personol, gweithiau celf neu gyfranddaliadau

Nac ydw ☐ Ewch i flwch 28

Ydw ☐ Ewch i flwch 29

28 **Eitemau y cyfeirir atynt yn yr ewyllys ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffurflen hon.** Dylid nodi unrhyw roddion yn ffurflen IHT403

| Eitemau a roddwyd fel rhoddion, a werthwyd neu a waredwyd cyn marwolaeth yr ymadawedig | I bwy y rhoddwyd neu y gwerthwyd yr eitem, neu beth ddigwyddodd iddi? | Dyddiad y rhodd, y gwerthiant neu'r gwarediad | Gwerth yr eitem ar y dyddiad y cafodd ei rhoi, ei gwerthu neu ei gwaredu £ | Os gwerthwyd yr eitem, beth wnaeth yr ymadawedig â derbyniadau'r gwerthiant? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

# Beth sy'n ffurfio'ch cyfrif Treth Etifeddiant – atodlenni

I wneud cyfrif cyflawn ar gyfer yr ystâd, efallai y bydd angen i chi lenwi rhai atodlenni ar wahân.

Atebwch y cwestiynau canlynol drwy roi tic yn y blychau priodol.

**29a Haen cyfradd sero preswyl**

A hoffech ddefnyddio'r haen cyfradd sero preswyl?

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT435**

**29b Trosglwyddo'r haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio**

A hoffech drosglwyddo unrhyw haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio oddi wrth briod neu bartner sifil yr ymadawedig a fu farw o'i flaen?

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT436**

**29c Trosglwyddo'r haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio**

A hoffech drosglwyddo unrhyw haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio oddi wrth briod neu bartner sifil yr ymadawedig a fu farw o'i flaen?

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT402**

**30 Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth**

A roddodd yr ymadawedig unrhyw roddion oes neu a wnaeth unrhyw drosglwyddiadau eraill o werth ar neu ar ôl 18 Mawrth 1986? Gweler IHT400, 'Nodiadau'

Naddo ☐ Do ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT403**

**31 Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion ar y cyd (heblaw am asedion busnes neu bartneriaeth) gydag unrhyw un arall?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT404**

**32 Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw dai, tir neu adeiladau, neu a oedd ganddo hawliau dros dir yn y DU yn ei enw ei hun yn unig?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT405**

**33 Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu**

A oedd gan yr ymadawedig gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu yn ei enw ei hun yn unig, gan gynnwys cyfrifon ISA arian parod, Cynilion Cenedlaethol a Bondiau Premiwm?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT406**

**34 Nwyddau i'r tŷ a meddiannau personol**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau i'r tŷ neu feddiannau personol?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT407**

Os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau i'r tŷ neu feddiannau personol, neu os nad oes iddynt unrhyw werth, esboniwch yr amgylchiadau yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17.

**35 Nwyddau i'r tŷ a meddiannau personol a roddwyd i elusen**

A yw'r bobl sy'n etifeddu nwyddau i'r tŷ neu feddiannau personol yr ymadawedig yn dymuno cyfrannu rhai neu'r cyfan ohonynt at elusen gymwys a didynnu'r rhyddhad elusen oddi wrth werth yr ystâd?

Er enghraifft, efallai y byddent yn dymuno rhoi dodrefn yr ymadawedig i siop elusen

Nac ydynt ☐ Ydynt ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT408**

**36 Pensiynau**

A oedd gan yr ymadawedig unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ei ymddeoliad heblaw am Bensiwn y Wladwriaeth? Er enghraifft, pensiwn gan gyflogwr, polisi pensiwn personol (neu bensiwn a sicrhawyd trwy ddull amgen)

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT409**

**37 Aswiriant bywyd a blwydd-daliadau**

A wnaeth yr ymadawedig dalu premiymau ar bolisïau aswiriant bywyd, blwydd-daliadau neu unrhyw gynhyrchion eraill sy'n daladwy naill ai i'w ystâd, i berson arall neu sy'n parhau ar ôl marwolaeth?

Naddo ☐ Do ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT410**

**38 Stociau a chyfranddaliadau rhestredig**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw stociau a chyfranddaliadau rhestredig, neu gyfrifon ISA stociau a chyfranddaliadau (ac eithrio daliannau rheoli)?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT411**

**39 Stociau a chyfranddaliadau anrhestredig, a daliannau rheoli**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw stociau a chyfranddaliadau anrhestredig, neu ddaliannau rheoli ar gyfer unrhyw gyfranddaliadau rhestredig?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT412**

**40 Rhyddhad Busnes, buddiannau ac asedion busnes a phartneriaeth**

A hoffech ddidynnu Rhyddhad Busnes oddi wrth unrhyw fuddiannau ac asedion busnes yr oedd yr ymadawedig, neu bartneriaeth yr oedd yn bartner ynddi, yn berchen arnynt?

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT413**

**41 Ffermydd, ffermdai a thir ffermio**

A hoffech ddidynnu Rhyddhad Amaethyddol oddi wrth unrhyw ffermydd, ffermdai neu dir ffermio yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt?

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT414**

## Beth sy'n ffurfio'ch cyfrif Treth Etifeddiant – atodlenni parhad

I wneud cyfrif cyflawn ar gyfer yr ystâd, efallai y bydd angen i chi lenwi atodlenni ar wahân.

Atebwch y cwestiynau canlynol drwy roi tic yn y blychau priodol.

**42 Buddiant mewn ystâd arall**

A oedd gan yr ymadawedig hawl i gael unrhyw gymynroddion neu asedion o ystâd rhywun a fu farw o'i flaen ac nad oedd wedi'u cael cyn iddo farw?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT415**

**43 Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd**

A oedd unrhyw arian yn ddyledus i'r ymadawedig ar ffurf benthyciadau personol neu forgais ar adeg y farwolaeth?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT416**

**44 Asedion tramor**

A oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw asedion y tu allan i'r DU naill ai yn ei enw ei hun yn unig, neu ar y cyd ag eraill?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT417**

**45 Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth**

A oedd gan yr ymadawedig unrhyw hawl i elwa ar unrhyw asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth (gan gynnwys yr hawl i gael asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar ryw ddyddiad yn y dyfodol)?

Nac oedd ☐ Oedd ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT418**

**46 Dyledion sy'n ddyledus gan yr ymadawedig**

A ydych yn dymuno cynnwys didyniad oddi wrth yr ystâd ar gyfer y mathau canlynol o ddyledion a rhwymedigaethau:

- arian a wariwyd ar ran yr ymadawedig ac na chafodd ei ad-dalu
- benthyciadau
- rhwymedigaethau mewn perthynas â pholisi aswiriant bywyd pan na fydd y swm a yswiriwyd yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn yr ystâd
- dyledion y gwnaeth yr ymadawedig eu gwarantu ar ran rhywun arall?

Nac ydw ☐ Ydw ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT419**

**47 Asedion Treftadaeth Genedlaethol**

A yw unrhyw ased eisoes wedi'i eithrio, neu a ydych yn hawlio eithriad nawr, ar sail diddordeb cenedlaethol, gwyddonol, hanesyddol, celfyddydol, golygfaol neu bensaernïol? Neu a yw unrhyw ased o'r fath yn cael elwa o Gronfa Cynhaliaeth Gymeradwy ar gyfer cynnal a chadw asedion Treftadaeth Genedlaethol?

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Defnyddiwch Atodlen **IHT420**

Os ateboch unrhyw gwestiwn o 29 i 47 yn gadarnhaol, llenwch yr atodlen ar gyfer yr ased hwnnw, ac eithrio atodlenni IHT435 ac IHT436. Dangosir rhif yr atodlen ar ddiwedd pob cwestiwn.

**48 A oes gennych yr holl atodlenni sydd eu hangen arnoch?**

Nac oes ☐

- lawrlwythwch yr atodlenni o www.gov.uk/treth-etifeddiant
- rhowch alwad i ni ar 0300 200 1900 (+44 300 200 1900 o'r tu allan i'r DU)

Pan fydd gennych yr holl atodlenni sydd eu hangen arnoch, llenwch yr holl atodlenni sydd wedi'u marcio, ac eithrio IHT435 ac IHT436, cyn mynd yn eich blaen i flwch 48a.

Oes ☐ Llenwch yr holl atodlenni sydd wedi'u marcio, ac eithrio IHT435 ac IHT436, cyn mynd yn eich blaen i flwch 48a.

Llenwch atodlenni IHT435 ac IHT436 ar ôl llenwi blwch 108.

**48a A fyddwch yn didynnu rhyddhad taliadau olynol?**

Gweler cwestiynau 11 i 18 yn IHT400, 'Cyfrifiad'.

Na fyddaf ☐ Byddaf ☐

**48b A fyddwch yn gwneud cais am ryddhad trethiant dwbl neu ryddhad unochrog?**

Gweler tudalen 4 o'r IHT400, 'Cyfrifiad'.

Na fyddaf ☐ Byddaf ☐

## Ystâd yn y DU

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybod i ni am yr asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn y DU. Dylech gynnwys yr holl asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr a chyfran yr ymadawedig o asedion roedd yn berchen arnynt ar y cyd. Bydd yn rhaid i chi gopïo ffigurau o'r atodlenni a lenwyd gennych. Dylid nodi unrhyw asedion oedd gan yr ymadawedig y tu allan i'r DU yn atodlen IHT417, 'Asedion tramor', ac nid ym mlychau 49 i 96.

### Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd

Nodwch '0' yn y blwch os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw rai o'r asedion a ddisgrifir.

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 49 | **Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd** (Atodlen IHT404, blwch 5) | | £ |
| 50 | **Asedion mewn perchnogaeth ar y cyd** (Atodlen IHT404, blwch 10) | £ | |

### Asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr

Nodwch werth yr asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr yn y blychau gyferbyn â phob cwestiwn. Nodwch '0' yn y blwch os nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw rai o'r asedion a ddisgrifir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 51 | **Preswylfa'r ymadawedig (ac eithrio ffermdai a thai mewn perchnogaeth ar y cyd)** (Atodlen IHT405, blwch 7). **Nodwch werth tai mewn perchnogaeth ar y cyd ym mlwch 49 a ffermdai ym mlwch 68. A ydych wedi ystyried yr haen cyfradd sero preswyl?** (Atodlenni IHT435 ac IHT436) | | £ |
| 52 | **Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu yn enw'r ymadawedig yn unig** (Atodlen IHT406, blwch 1) | £ | |
| 53 | **Arian parod (darnau arian neu bapur) a sieciau teithio heb eu cyflwyno** | £ | |
| 54 | **Bondiau Premiwm a chynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol** (Atodlen IHT406, blwch 5) | £ | |
| 55 | **Nwyddau i'r tŷ a meddiannau personol** (Atodlen IHT407, blwch 6) | £ | |
| 56 | **Pensiynau** (Atodlen IHT409, blychau 7 a 15) – **nodwch werth unrhyw ôl-ddyledion pensiwn sy'n ddyledus ar ddyddiad y farwolaeth** | £ | |
| 57 | **Polisïau aswiriant bywyd a diogelu morgeisi** (Atodlen IHT410, blwch 6) | £ | |
| 58 | **Cyfanswm yr holl ffigurau yng ngholofn A** (blychau 50 i 57) | £ | |
| 59 | **Cyfanswm yr holl ffigurau yng ngholofn B** (blychau 49 plws 51) | | £ |

## Ystâd yn y DU parhad

| Blwch | Disgrifiad | A | B |
|---|---|---|---|
| 60 | **Copïwch y ffigur o flwch 58** | £ | |
| 61 | **Copïwch y ffigur o flwch 59** | | £ |
| 62 | **Gwarantau Llywodraeth y DU a gwarantau bwrdeisiol** (Atodlen IHT411, blwch 1), **ond nodwch ddifidendau a llog ym mlwch 64** | £ | |
| 63 | **Stociau, cyfranddaliadau a buddsoddiadau rhestredig nad oeddent yn rhoi i'r ymadawedig reolaeth dros y cwmni** (Atodlen IHT411, blwch 2) | £ | |
| 64 | **Difidendau neu log ar stociau, cyfranddaliadau a gwarantau** | £ | |
| 65 | **Cyfranddaliadau anrhestredig a fasnachwyd, a chyfranddaliadau anrhestredig, ac eithrio daliannau rheoli** (Atodlen IHT412, blychau 1 a 2) | £ | |
| 66 | **Cyfranddaliadau anrhestredig a fasnachwyd, a chyfranddaliadau anrhestredig, ac eithrio daliannau rheoli** (ewch i'r nodiadau IHT412, 'Talu treth fesul rhandaliad') | | £ |
| 67 | **Daliannau rheoli ar gyfer cyfranddaliadau anrhestredig, cyfranddaliadau anrhestredig a fasnachwyd a chyfranddaliadau rhestredig** (Atodlen IHT412, blychau 3, 4 a 5) | | £ |
| 68 | **Ffermydd, ffermdai a thir ffermio** (rhowch fanylion yn Atodlenni IHT414 ac IHT405) | | £ |
| 69 | **Busnesau gan gynnwys busnesau ffermio, asedion busnes a choed** | | £ |
| 70 | **Tir, adeiladau a hawliau eraill dros dir** (rhowch fanylion yn Atodlen IHT405) | | £ |
| 71 | **Buddiant mewn ystâd arall** (Atodlen IHT415, blwch 7) | | £ |
| 72 | **Buddiant mewn ystâd arall** (Atodlen IHT415, blwch 9) | £ | |
| 73 | **Dyledion sy'n ddyledus i'r ystâd** (Atodlen IHT416, cyfanswm blwch 3) | £ | |
| 74 | **Ad-daliad Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf** | £ | |
| 75 | **Incwm o ymddiriedolaeth sy'n ddyledus i'r ymadawedig** – ewch i IHT400, 'Nodiadau' | £ | |
| 76 | **Asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig** (nodwch fanylion yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17 o'r ffurflen hon os nad ydynt wedi'u nodi mewn man arall) | £ | |
| 77 | **Cyfanswm yr holl ffigurau yng ngholofn A** (blychau 60 i 65 a 72 i 76) | £ | |
| 78 | **Cyfanswm yr holl ffigurau yng ngholofn B** (blychau 61 i 71) | | £ |
| 79 | **Cyfanswm gros yr ystâd yn y DU** (blwch 77 plws blwch 78) | £ | |

## Didyniadau oddi wrth yr ystâd yn y DU a gafwyd hyd at ddyddiad y farwolaeth

80 **Morgeisi, benthyciadau wedi'u gwarantu a dyledion eraill sy'n daladwy allan o eiddo neu asedion yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn llwyr ac a nodir yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8.**

Er enghraifft, morgais wedi'i warantu ar dŷ'r ymadawedig neu fenthyciad wedi'i warantu ar fusnes. Nodwch enw'r credydwr a nodwch yr eiddo neu ased y mae'r didyniad yn ymwneud ag ef, gan ddisgrifio'r rhwymedigaeth. Rhowch gopïau o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o'r dyledion.

| Enw'r credydwr | Eiddo neu ased a disgrifiad o'r rhwymedigaeth | Swm £ |
|---|---|---|
| | | |
| | Cyfanswm morgeisi a benthyciadau wedi'u gwarantu | £ |

81 **Treuliau angladd**

| | |
|---|---|
| Costau angladd | £ |
| Carreg goffa | £ |
| Costau eraill (nodwch) | |
| Cyfanswm cost yr angladd | £ |

82 **Rhwymedigaethau eraill**

**Nodwch unrhyw rwymedigaethau eraill nad ydynt wedi'u nodi ym mlychau 80 neu 81.**

Er enghraifft, biliau nwy a thrydan, balansau cardiau credyd, ffïoedd cartref nyrsio neu Dreth Incwm sydd heb eu talu.

| Enw'r credydwr a disgrifiad o'r rhwymedigaeth | Swm £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau eraill | £ |

## Didyniadau oddi wrth yr ystâd yn y DU parhad

### Crynodeb o'r didyniadau

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 83 | **Ffigur blwch 80** | | £ |
| 84 | **Cyfanswm blwch 81 a blwch 82** | £ | |
| 85 | **Blwch 77 llai blwch 84. Os yw'r canlyniad yn ffigur negyddol, nodwch '0' yn y blwch a nodwch y diffyg ym mlwch 88** | £ 0 | |
| 86 | **Blwch 78 llai blwch 83. Os yw'r canlyniad yn ffigur negyddol, nodwch '0' yn y blwch a nodwch y diffyg ym mlwch 87** | | £ 0 |
| 87 | **Nodwch y ffigur ar gyfer y diffyg o flwch 86** (os oes un) | £ 0 | |
| 88 | **Nodwch y ffigur ar gyfer y diffyg o flwch 85** (os oes un) | | £ 0 |
| 89 | **Blwch 85 llai blwch 87** | £ 0 | |
| 90 | **Blwch 86 llai blwch 88** | | £ 0 |
| 91 | **Cyfanswm yr ystâd yn y DU** (blwch 89 plws blwch 90) | £ 0 | |

## Eithriadau a rhyddhadau

92 **Eithriadau a rhyddhadau a ddidynnwyd oddi wrth yr asedion a oedd yn enw'r ymadawedig yn unig a nodir yng ngholofn A ar dudalennau 7 ac 8 – ewch i IHT400, 'Nodiadau'.** Os ydych yn didynnu rhyddhad priod neu bartner sifil, nodwch enw llawn, rhif Yswiriant Gwladol (os yw'n hysbys), dyddiad geni, gwlad enedigol a domisil y priod neu'r partner sifil. Os ydych yn didynnu rhyddhad elusen, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle cafodd ei sefydlu a chyfeirnod elusennau Cyllid a Thollau EF (CThEF), os yw ar gael. Peidiwch â chynnwys eithriadau na rhyddhadau ar asedion mewn perchnogaeth ar y cyd – dylid didynnu'r rhain yn Atodlen IHT404, ym mlwch 9. Peidiwch â didynnu'r haen cyfradd sero drosglwyddadwy yma nac ym mlwch 93. Dylai gael ei didynnu ym mlwch 116 neu ym mlwch 2 yn IHT400, 'Cyfrifiad'.

| Disgrifiwch yr eithriadau a'r rhyddhadau rydych yn eu didynnu – er enghraifft, 'rhodd ariannol i elusen yn yr ewyllys' – a dangoswch sut cafodd y swm ei gyfrifo. Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17 o'r ffurflen hon os bydd angen rhagor o le arnoch. | Swm a ddidynnwyd £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhadau o'r asedion yng **ngholofn A** | £ |

## Eithriadau a rhyddhadau parhad

93 **Eithriadau a rhyddhadau a ddidynnwyd oddi wrth yr asedion a oedd yn enw'r ymadawedig yn unig a nodir yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8 – ewch i IHT400, 'Nodiadau'.** Os ydych yn didynnu rhyddhad priod neu bartner sifil, nodwch enw llawn, rhif Yswiriant Gwladol (os yw'n hysbys), dyddiad geni, gwlad enedigol a domisil y priod neu'r partner sifil a/neu, os ydych yn didynnu rhyddhad elusennau, nodwch enw llawn yr elusen, y wlad lle cafodd ei sefydlu, a chyfeirnod elusennau CThEF, os yw ar gael (oni bai ei fod eisoes wedi'i nodi ym mlwch 92). Peidiwch â chynnwys eithriadau na rhyddhadau ar asedion mewn perchnogaeth ar y cyd – dylid didynnu'r rhain yn ffurflen IHT404, ym mlwch 4.

| Disgrifiwch yr eithriadau a'r rhyddhadau rydych yn eu didynnu – er enghraifft, 'Rhyddhad amaethyddol ar gyfer fferm' – a dangoswch sut cafodd y swm ei gyfrifo. Defnyddiwch y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17 os bydd angen rhagor o le arnoch. | Swm a ddidynnwyd £ |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm yr eithriadau a'r rhyddhadau o'r asedion yng **ngholofn B** | £ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 94 | **Blwch 89 llai blwch 92** | £ 0 | |
| 95 | **Blwch 90 llai blwch 93** | | £ 0 |
| 96 | **Cyfanswm net yr ystâd yn y DU, ar ôl eithriadau a rhyddhadau** (blwch 94 plws blwch 95) | £ 0 | |

## Asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth

| | | Colofn A | Colofn B |
|---|---|---|---|
| 97 | **Tai, tir, busnesau a daliannau rheoli tramor** (Atodlen IHT417, blwch 5) | | £ |
| 98 | **Asedion tramor eraill** (Atodlen IHT417, blwch 10) | £ | |
| 99 | **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth yr hoffai'r ymddiriedolwyr dalu'r dreth arnynt nawr** (Atodlen IHT418, blwch H10) | | £ |
| 100 | **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth yr hoffai'r ymddiriedolwyr dalu'r dreth arnynt nawr** (Atodlen IHT418, blwch H7) | £ | |
| 101 | **Asedion enwebedig. Rhowch fanylion yr asedion enwebedig yn y blychau 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 17** – ewch i IHT400, 'Nodiadau' | £ | |
| 102 | **Blwch 98 plws blwch 100 plws blwch 101** | £ | |
| 103 | **Blwch 97 plws blwch 99** | | £ |
| 104 | **Rhoddion amodol ac asedion roedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn flaenorol** (Atodlen IHT403, blwch 17) | £ | |
| 105 | **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth lle nad yw'r ymddiriedolwyr yn talu'r dreth arnynt nawr** (Atodlen IHT418, blwch H11) | £ | |
| 106 | **Cronfeydd pensiwn a sicrhawyd mewn modd gwahanol** (Atodlen IHT409, blychau 32 a 42 – dim ond os oedd dyddiad y farwolaeth rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2007 yn gynwysedig) | £ | |
| 107 | **Cyfanswm yr asedion eraill a ystyriwyd wrth gyfrifo'r dreth** (blwch 102 plws blychau 103, 104, 105 a 106) | £ | |
| 108 | **Cyfanswm yr ystâd drethadwy** (blwch 96 plws blwch 107). **Llenwch IHT435 ac IHT436 os ydych wedi rhoi tic ym mlychau 29a neu 29b ar dudalen 5** | £ 0 | |

## Cyfrifo'r Dreth Etifeddiant

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon eich hun heb gymorth cyfreithiwr neu ymgynghorydd arall, does dim angen i chi gyfrifo'r dreth eich hun, gallwn wneud hynny ar eich rhan. Os ydych am i ni wneud hyn, ticiwch yma ☐

Os nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu, does dim rhaid i chi lenwi'r dudalen hon a dylech fynd i flwch 121 ar dudalen 13.

**109** **A oes unrhyw ran o'r ystâd yn gymwys i dalu Treth Etifeddiant ar y gyfradd is (36%)?** Ewch i IHT400, 'Nodiadau', tudalen 54

Nac oes ☐ Ewch i flwch 110

Oes ☐ Bydd angen i chi lenwi Atodlen IHT430, 'Treth Etifeddiant ar y gyfradd is'

**Talu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad**

Yn hytrach na thalu'r holl Dreth Etifeddiant ar unwaith, gallwch dalu rhywfaint ohoni mewn 10 rhandaliad blynyddol (hynny yw, un rhandaliad bob blwyddyn am 10 mlynedd). Gallwch dalu fesul rhandaliad ar unrhyw asedion a nodir yng ngholofn B ar dudalennau 7 ac 8 nad ydynt wedi cael eu gwerthu.

Bydd llog yn daladwy ar y rhandaliadau.
Cyfanswm gwerth yr asedion y gallwch dalu'r dreth arnynt fesul rhandaliad yw blwch 95 plws blychau 97 a 99 (os oes unrhyw beth).

**110** **A ydych yn dymuno talu'r dreth ar y symiau a nodir ym mlychau 95, 97 plws 99 fesul rhandaliad?**

Nac ydw ☐ Ewch i'r adran 'Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml'.
Os na ddewiswch dalu treth fesul rhandaliad, mae'n rhaid i chi dalu'r holl dreth sy'n ddyledus ar yr ystâd pan anfonwch eich ffurflen IHT400 atom.

Ydw ☐ Os gwerthwyd unrhyw rai o'r asedion yng ngholofn B, ysgrifennwch gyfanswm gwerth yr asedion hynny yma

£ ______ Ewch i flwch 120

## Cyfrifiad Treth Etifeddiant syml

Gallwch ddefnyddio'r cyfrifiad syml ym mlychau 111 i 119 i gyfrifo'r Dreth Etifeddiant ar yr ystâd cyhyd â bod y canlynol yn gymwys:

- rydych yn talu'r dreth ar neu cyn diwrnod olaf y chweched mis ar ôl y farwolaeth, felly nid oes llog yn daladwy
- nid ydych yn dymuno talu'r holl dreth nawr na thalu fesul rhandaliad ar eiddo yng ngholofn B (gweler y nodyn uchod ynglŷn â thalu Treth Etifeddiant fesul rhandaliad)
- mae cyfanswm unrhyw roddion oes islaw'r haen cyfradd sero ar gyfer Treth Etifeddiant
- nid ydych yn didynnu'r rhyddhad trethiant dwbl oddi wrth unrhyw asedion tramor (ewch i'r nodyn yn IHT400, 'Cyfrifiad')
- nid ydych yn didynnu rhyddhad costau olynol oddi wrth asedion a etifeddwyd gan yr ymadawedig yn y 5 mlynedd diwethaf o ystâd arall y talwyd Treth Etifeddiant arni (gweler y nodyn yn IHT400, 'Cyfrifiad')
- nid yw'r ystâd yn gymwys i dalu Treth Etifeddiant ar y gyfradd is (36%)

Sylwer y gallai cyfran o'r Dreth Etifeddiant fod yn daladwy cyn y gellir cael y grant cynrychiolaeth neu'r cadarnhad. Ewch i dudalen 7 o IHT400, 'Nodiadau', i gael manylion pellach.

Os nad yw'r cyfrifiad syml yn berthnasol i chi, bydd yn rhaid i chi ddefnyddio naill ai ffurflen IHT400, 'Cyfrifiad', neu Atodlen IHT430, 'Treth Etifeddiant ar y gyfradd is', i gyfrifo'r Dreth Etifeddiant sy'n ddyledus, yna dylech barhau i lenwi'r ffurflen hon o flwch 120 ymlaen.

| | | |
|---|---|---|
| 111 | **Haen cyfradd sero preswyl** (nodwch y canlyniad a gafwyd gan y gyfrifiannell Haen cyfradd sero preswyl, ewch i www.gov.uk) | £ |
| 112 | **Ystâd drethadwy ar ôl yr haen cyfradd sero preswyl** (os yw'n ffigur negyddol, nodwch '0') (blwch 108 llai blwch 111) | £ |
| 113 | **Cyfanswm gwerth trethadwy'r rhoddion a roddwyd gan yr ymadawedig o fewn y 7 mlynedd cyn ei farwolaeth** (IHT403, blwch 7) | £ |
| 114 | **Y gwerth y codir treth arno cyn yr haen cyfradd sero** (blwch 112 plws blwch 113) | £ |
| 115 | **Haen cyfradd sero'r Dreth Etifeddiant ar ddyddiad y farwolaeth** – ewch i IHT400, 'Cyfraddau a thablau' | £ |
| 116 | **Haen cyfradd sero drosglwyddadwy** (Atodlen IHT402, blwch 21) | £ |
| 117 | **Cyfanswm yr haen cyfradd sero** (blwch 115 plws blwch 116) | £ |
| 118 | **Y gwerth y codir treth arno** (blwch 114 llai blwch 117) | £ |
| 119 | **Treth Etifeddiant** (blwch 118 wedi'i luosi â 40%) | £ . |

## Cynllun Taliadau Uniongyrchol

Cynllun yw hwn lle y bydd y banciau a'r cymdeithasau adeiladu hynny sy'n rhan ohono, ynghyd â'r sefydliad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, yn rhyddhau arian o gyfrifon yr ymadawedig yn uniongyrchol i CThEF er mwyn talu Treth Etifeddiant.

120 **A ydych yn dymuno defnyddio'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐ Llenwch Atodlen IHT423 (bydd angen ffurflen ar wahân arnoch ar gyfer pob cyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu a chyfrif Cynilion Cenedlaethol a Buddsoddiadau dan sylw)

Os ydych yn gwneud cais am brofiant yng Ngogledd Iwerddon, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen IHT421, 'Crynodeb o'r Profiant', a'i hamgáu.
Os ydych yn gwneud cais am gadarnhad yn yr Alban, mae'n rhaid i chi amgáu copi o'r ffurflen C1, 'Confirmation form'.

## Datganiad

121 Rwyf/Rydym yn dymuno gwneud cais am y math canlynol o grant (ewch i'r nodyn 'Grant Cynrychiolaeth' yn IHT400, 'Nodiadau' i benderfynu ar y math o grant)

- Profiant ☐
- Cadarnhad ☐
- Llythyrau Gweinyddu ☐
- Llythyrau Gweinyddu gydag ewyllys ynghlwm ☐
- Arall (nodwch)

☐

122 Rhowch wybod i ni ble y mae'r cais hwn yn cael ei wneud. Ticiwch un blwch

- Cymru neu Loegr ☐
- Yr Alban ☐
- Gogledd Iwerddon ☐

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred, mae'r wybodaeth rwyf/rydym wedi'i rhoi a'r datganiadau rwyf/rydym wedi eu gwneud yn y cyfrif hwn a'r atodlenni sydd ynghlwm (a elwir gyda'i gilydd 'y cyfrif hwn') yn gywir ac yn gyflawn. Ticiwch yr atodlenni yr ydych wedi'u llenwi.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| IHT401 | ☐ | IHT409 | ☐ | IHT417 | ☐ |
| IHT402 | ☐ | IHT410 | ☐ | IHT418 | ☐ |
| IHT403 | ☐ | IHT411 | ☐ | IHT419 | ☐ |
| IHT404 | ☐ | IHT412 | ☐ | IHT420 | ☐ |
| IHT405 | ☐ | IHT413 | ☐ | IHT421 | ☐ |
| IHT406 | ☐ | IHT414 | ☐ | IHT430 | ☐ |
| IHT407 | ☐ | IHT415 | ☐ | IHT435 | ☐ |
| IHT408 | ☐ | IHT416 | ☐ | IHT436 | ☐ |
| | | | | C1 | ☐ |

Rwyf/Rydym wedi gwneud yr ymholiadau llawnaf sy'n rhesymol ymarferol dan yr amgylchiadau i ddarganfod gwerth yr holl eitemau a nodir yn y cyfrif hwn ar y farchnad agored.

Mae gwerth yr eitemau yn y blychau a restrir yn amcangyfrifon dros dro sy'n seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael i mi/i ni ar hyn o bryd.

Byddaf/Byddwn yn dweud wrth Gyllid a Thollau EF yr union werthoedd cyn gynted ag y byddaf/byddwn yn gwybod beth ydynt, a byddaf/byddwn yn talu unrhyw dreth a llog ychwanegol a allai fod yn ddyledus.

Rhestrwch y blychau yn y cyfrif sy'n cynnwys ffigurau dros dro yn y blwch isod.

☐

Pan fo Atodlen IHT402 wedi'i llenwi, rwyf/rydym yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred fod y canlynol yn berthnasol:

- roedd yr ymadawedig a'i briod neu ei bartner sifil yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar y dyddiad y bu farw'r priod neu'r partner sifil hwnnw
- lle na ddarparwyd Gweithred Amrywio, ni fu unrhyw newid o ran y bobl a etifeddodd ystâd y priod neu'r partner sifil

Rwyf/Rydym yn deall y gallwn/gallem fod yn agored i erlyniad os byddaf/byddwn yn mynd ati'n fwriadol i guddio unrhyw wybodaeth sy'n effeithio ar y rhwymedigaeth i Dreth Etifeddiant sy'n codi yn sgil marwolaeth yr ymadawedig, neu os byddaf/byddwn yn mynd ati'n fwriadol i gynnwys gwybodaeth yn y cyfrif hwn yr wyf/yr ydym yn gwybod ei bod yn ffug.

Rwyf/Rydym yn deall y gallai fod yn rhaid i mi/i ni dalu cosbau ariannol os cyflwynir y cyfrif hwn yn hwyr neu os yw'n cynnwys gwybodaeth ffug, neu os byddaf/byddwn yn methu â chywiro unrhyw beth yn y cyfrif hwn sy'n anghywir mewn unrhyw ffordd berthnasol o fewn amser rhesymol iddo ddod yn hysbys i mi/i ni.

Rwyf/Rydym yn deall nad yw cyhoeddi'r grant yn golygu fy mod/ein bod wedi talu'r holl Dreth Etifeddiant a'r llog a allai fod yn ddyledus ar yr ystâd, na bod y datganiadau a wnaed a'r gwerthoedd a gynhwyswyd yn y cyfrif hwn yn cael eu derbyn gan Gyllid a Thollau EF.

## Datganiad parhad

Rwyf/Rydym yn deall y bydd Cyllid a Thollau EF:

- yn edrych ar y cyfrif hwn yn fanwl dim ond ar ôl i'r grant gael ei gyhoeddi
- o bosibl yn gorfod gofyn cwestiynau pellach a thrafod gwerth yr eitemau a nodir yn y cyfrif hwn
- o bosibl yn gwneud cyfrifiadau pellach o dreth a llog sy'n daladwy er mwyn helpu'r bobl sy'n agored i'r dreth i wneud darpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth treth

Rwyf/Rydym yn deall y gallai fod angen i mi/i ni dalu llog ar unrhyw dreth heb ei thalu yn unol â'r gyfraith lle:

- rwyf/rydym wedi dewis talu treth fesul rhandaliad
- daw treth ychwanegol yn daladwy am unrhyw reswm

**Rhaid i bob un sy'n cyflwyno'r cyfrif hwn, p'un ai fel ysgutor, gweinyddwr arfaethedig neu fel arall, lofnodi'r dudalen hon i ddangos eu bod wedi darllen a chytuno â'r datganiadau ar dudalennau 13 ac 14, neu â'r datganiad a amlinellir ar dudalen 57 o'r IHT400 'Nodiadau' ynghlwm.**

Os ydych yn gweithredu mewn capasiti proffesiynol ar gyfer yr ystâd hon, rhowch eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) ar gyfer Hunanasesiad neu'ch UTR ar gyfer Treth Gorfforaeth ac enw'ch asiant isod.

**Cyfenw neu enw asiant**

**Enwau cyntaf**

**Dyddiad geni**

**Rhif Yswiriant Gwladol neu UTR**

**Rhif ffôn**

Cyfeiriad

Cod post

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Cyfenw neu enw asiant**

**Enwau cyntaf**

**Dyddiad geni**

**Rhif Yswiriant Gwladol neu UTR**

**Rhif ffôn**

Cyfeiriad

Cod post

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Cyfenw neu enw asiant**

**Enwau cyntaf**

**Dyddiad geni**

**Rhif Yswiriant Gwladol neu UTR**

**Rhif ffôn**

Cyfeiriad

Cod post

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## Defnyddio e-bost i anfon atoch gydnabyddiaeth a chod ar gyfer eich cais am brofiant neu gadarnhad

Pan fyddwn wedi prosesu'r ffurflen IHT400 hon, byddwn yn anfon llythyr cydnabyddiaeth atoch. Bydd y llythyr yn cynnwys cod y bydd ei angen arnoch pan fyddwch yn gwneud cais am brofiant yng Nghymru a Lloegr, neu gadarnhad yn yr Alban. Bydd y llythyr hefyd yn cynnwys yr wybodaeth am Dreth Etifeddiant y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich cais am brofiant neu gadarnhad.

I gyflymu'r broses, gallwn anfon yr wybodaeth hon atoch drwy e-bost. Fodd bynnag, nid yw anfon e-byst yn hollol ddiogel, felly mae'n bwysig iawn eich bod yn deall y risgiau.

### Os hoffech i ni anfon yr wybodaeth drwy e-bost

Darllenwch ein hymwadiad e-bost - gweler tudalen 85 o Ganllaw ar gyfer cwblhau eich cyfrif Treth Etifeddiaeth (nodiadau IHT400 2022).

Os ydych yn derbyn y risgiau ac yn dymuno ein bod yn anfon yr wybodaeth drwy e-bost, ticiwch y blwch isod a rhowch wybod i ni pa gyfeiriad e-bost yr hoffech i ni ei ddefnyddio.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a derbyn y telerau a amlinellir yn yr ymwadiad e-bost ☐

**Cyfeiriad ebost**

[ ]

**Nodwch eich rol** (er enghraifft, ysgutor neu asiant)

[ ]

**Byddwn ond yn defnyddio e-bost i anfon yr wybodaeth hon atoch.**

**Ni allwn ddefnyddio'r e-bost hwn ar gyfer unrhyw ohebiaeth arall.**

## Rhestr wirio

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dudalen berthnasol yn yr IHT400, 'Nodiadau'. Defnyddiwch y rhestr wirio i'ch atgoffa am:

- y camau y dylech eu cymryd
- yr wybodaeth ychwanegol y dylech ei chynnwys wrth anfon y ffurflenni Treth Etifeddiant atom

**Os bu farw'r ymadawedig gan adael ewyllys, rhowch gopi o'r ewyllys ac unrhyw godisil. Peidiwch ag anfon y dogfennau gwreiddiol**

Na ☐ Iawn ☐

**Os yw'r ystâd wedi'i hamrywio mewn unrhyw ffordd a bod yr amrywiad naill ai'n cynyddu neu'n gostwng swm y dreth, rhowch gopi o'r offeryn amrywio**

Na ☐ Iawn ☐

**Unrhyw brisiad proffesiynol o stociau a chyfranddaliadau**

Na ☐ Iawn ☐

**Unrhyw brisiad proffesiynol o nwyddau i'r tŷ neu feddiannau personol**

Na ☐ Iawn ☐

**Unrhyw brisiad proffesiynol o dai, tir ac adeiladau**

Na ☐ Iawn ☐

**Copi o unrhyw bolisi yswiriant (a blwydd-dal, os yw'n briodol) lle'r oedd yr ymadawedig yn talu'r premiymau er lles rhywun arall ac unrhyw ddogfennau ymddiriedolaeth os yw'r polisi wedi'i ysgrifennu mewn ymddiriedolaeth**

Na ☐ Iawn ☐

**Copi o unrhyw weithred ymddiriedolaeth, os yw'r ymddiriedolwyr yn talu treth ar yr un adeg ag yr ydych yn gwneud cais am y grant**

Na ☐ Iawn ☐

**Unrhyw dystiolaeth o arian sy'n ddyledus i'r ymadawedig, gan gynnwys cytundebau benthyciadau ac ymddiriedolaethau neu bolisïau cysylltiedig ac unrhyw dystiolaeth o'r dyledion sy'n cael eu rhyddhau**

Na ☐ Iawn ☐

**Copi o unrhyw bolisi aswiriant bywyd ar y cyd neu bolisi ar gyfer bywyd unigolyn arall**

Na ☐ Iawn ☐

**Copi o unrhyw arolwg strwythurol a/neu ohebiaeth gyda'r addaswr colledion ynghylch unrhyw eiddo sydd â difrod strwythurol**

Na ☐ Iawn ☐

**Os ydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol, cynllun o'r eiddo a chopi o'r brydles neu'r cytundeb ar gyfer gosod (lle bo hynny'n briodol)**

Na ☐ Iawn ☐

**Os ydych yn didynnu Rhyddhad Busnes, copi o gytundeb y bartneriaeth (lle bo hynny'n briodol) a chyfrifon y tair blynedd diwethaf**

Na ☐ Iawn ☐

**Os ydych yn didynnu rhyddhad trethiant dwbl neu ryddhad unochrog, rhowch dystiolaeth o'r dreth dramor ar ffurf asesiad o'r dreth dramor, tystysgrif o'r dreth dramor a dalwyd ac (os oes un ar gael) y dderbynneb swyddogol**

Na ☐ Iawn ☐

**Unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o ddyledion i gyfeillion agos neu deulu**

Na ☐ Iawn ☐

**A yw'r holl ysgutorion wedi llofnodi tudalen 14 o'r ffurflen hon?**

Nac ydynt ☐ Ydynt ☐

**Os ydych wedi cyfrifo'ch treth eich hun, a ydych wedi amgáu'r cyfrifiad gyda'r ffurflen hon a threfnu i dalu'r dreth?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**A ydych wedi llenwi ffurflen IHT421 os ydych yn gwneud cais am grant profiant yng Ngogledd Iwerddon neu ffurflen C1 os ydych yn gwneud cais am grant cadarnhad yn yr Alban?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

### Cynllun Taliadau Uniongyrchol (os yn berthnasol)

**Os ydych yn defnyddio'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol, a ydych wedi anfon Atodlen IHT423 i bob sefydliad a fydd yn darparu arian?** Ewch i IHT423

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os ydych am i Gyllid a Thollau EF wneud cais am daliad o stociau Llywodraeth Prydain, anfonwch lythyr atom gan roi manylion y buddsoddiadau i'w defnyddio a faint o'r dreth sydd i'w thalu trwy stociau'r llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth am dalu drwy Gynilion Cenedlaethol, ewch i www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant

I dalu gan ddefnyddio stociau'r llywodraeth, ewch i www.gov.uk/talu-treth-etifeddiant/stociau-llywodraeth-prydain

## Cyfeiriad ar gyfer dychwelyd y ffurflen a manylion cyswllt

Os ydych yn gwneud cais am grant yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu am gadarnhad yn yr Alban, dylech anfon y ffurflenni Treth Etifeddiant i:

Treth Etifeddiant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST
Ffôn: 0300 200 1900

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth benodol am Dreth Etifeddiant neu os oes gennych gwestiynau penodol ynglŷn â llenwi'r ffurflenni:

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch y llinell gymorth ar
  0300 200 1900 (+44 300 200 1900 o'r tu allan i'r DU)

Os bydd angen copi arnoch o unrhyw un o'n ffurflenni neu'n taflenni, gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan neu ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF i'w harchebu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y lle hwn:

- i esbonio'r amgylchiadau lle nad oedd yr ymadawedig yn berchen ar unrhyw nwyddau i'r tŷ na meddiannau personol, neu lle nad oes iddynt unrhyw werth (blwch 34)
- i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwn amdani, gan gynnwys manylion:
  - unrhyw gais i ryddhau hawliau cyfreithiol (blwch 7)
  - asedion eraill ac incwm sy'n ddyledus i'r ymadawedig (blwch 76)
  - asedion enwebedig (blwch 101)
  - rhyddhad taliadau olynol (IHT400, 'Cyfrifiad', blwch 10)
  - pam mae unrhyw ddyledion nad ydynt yn cael eu had-dalu allan o'r ystâd yn dal i gael eu didynnu yn erbyn yr ystâd (blwch 80 neu 82)

Os bydd angen rhagor o le arnoch, parhewch ar ddalen ar wahân.